# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Iau, 4 Ebrill 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, I.W. Davies, J.A. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, C. Jones, D. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis, K. Lloyd, K. Madge, B.D.J. Phillips, J.G. Prosser, G.B. Thomas a J.E. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Edwards, Rheolwr Datblygu & Treftadaeth Adeiledig
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De)
K Phillips, Development Management Officer
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd (Cyswllt Cynllunio)
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Y Siambr, Neuadd y Sir - 11.45 yb - 1.30 yp**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

| Enw | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd K. Madge | 4 - Cais Cynllunio E/37177 - Cais am lety hunanarlwyo a Gwely a Brecwast newydd i dwristiaid ynghyd â llety i reolwyr a sba, sy'n cael eu darparu drwy bedair uned breswyl a gosod carafán breswyl dros dro yng Ngolygfa Aberhonddu Brecon View Eco Village, ar dir i'r gogledd o Heol Dinefwr, y Garnant, Rhydaman; | Wedi derbyn triniaeth gan yr ymgeisydd. |

**3. E/37577 - PRESWYLFA YN LLE'R UN BRESENNOL AC ADEILADU PRESWYLFA AR WAHÂN AC IDDI DDAU LAWR Â 3 YSTAFELL WELY YN LLETTYLICKY, CRUG-Y-BAR, LLANWRDA, SA19 8SL**

Cyfeiriodd y Swyddog Rheoli Datblygu at ymweliad preifat y Pwyllgor â'r safle'n gynharach y diwrnod hwnnw (gweler cofnod 3 cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 7 Mawrth, 2019) a drefnwyd er mwyn i'r Pwyllgor gael golwg ar y safle ac ar yr eiddo cyfagos. Cyfeiriodd, gyda chymorth sleidiau PowerPoint, at adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio a oedd yn rhoi arfarniad o'r safle, ynghyd â disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig, crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a gwybodaeth am y polisïau lleol a chenedlaethol a oedd yn berthnasol wrth asesu'r

cais. Dywedodd fod y Pennaeth Cynllunio yn argymell gwrthod y cais am y rhesymau y manylwyd arnynt yn yr adroddiad ysgrifenedig.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL caniatáu Cais Cynllunio E/37577 yn groes i argymhelliad y Pennaeth Cynllunio, ar y sail y barnwyd nad yw'n groes i Bolisi H4, yn amodol ar yr amodau i'w drafftio gan y Pennaeth Cynllunio a fydd yn cynnwys cyflwyno cynllun tirweddu addas a dymchwel y ffermdy presennol.**

## 4. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn adroddiad/atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **E/37177** | **Cais am lety hunanarlwyo a Gwely a Brecwast newydd i dwristiaid ynghyd â llety i reolwyr a sba, sy'n cael eu darparu drwy bedair uned breswyl a gosod carafán breswyl dros dro yng Ngolygfa Aberhonddu Brecon View Eco Village, ar dir i'r gogledd o Heol Dinefwr, y Garnant, Rhydaman.**<br><br>[**Sylwer:** Gan ei fod wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd K. Madge Siambr y Cyngor cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno.] |

## 5. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn adroddiad/atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **S/34180** | **Ciwbiclau newydd i letya stoc ifanc (ôl-weithredol) ar Fferm Cwmberem, Pontyberem, Llanelli, SA15 5BP.**<br><br>Daeth sylw i law a wrthwynebai'r datblygiad uchod, gan ail-bwysleisio’r pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio, gan gynnwys y pwyntiau canlynol:-<br>• Cais yn ôl-weithredol;<br>• Agosrwydd y sied;<br>• Maint y datblygiad yn enfawr;<br>• Diogelwch y ffyrdd;<br>• Colli amwynder<br>• Cais i'r Pwyllgor Cynllunio ystyried unrhyw newidiadau pellach.<br>Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu (Rhanbarth y Dwyrain) a'r ymgeisydd i'r materion a godwyd. |

6. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn unol â'r amodau a nodwyd yn adroddiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **W/38461** | **Caniatâd Ardal Gadwraeth i adnewyddu caniatâd cynllunio sydd wedi dod i ben (W/20488), preswylfa a garej yn 14 Heol Gwermont, Llan-saint, Cydweli, Sir Gaerfyrddin, SA17 5JA.** |

7. COFNODION - 7FED MAWRTH 2019

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 7 Mawrth 2019 gan eu bod yn gywir.**

______________________ ______________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

[SYLWER: *Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]